# DATGANIAD O'R RHESYMAU

## GORCHYMYN CYDGRYNHOI SIR GAERFYRDDIN (MANNAU PARCIO ODDI AR Y STRYD) (PENTRE AWEL, LLANELLI) (AMRYWIAD RHIF 5) 2025

Mae'r penderfyniad i weithredu Gorchymyn Parcio Oddi ar y Stryd ym maes parcio Pentre Awel wedi'i wneud mewn ymateb i amrywiaeth o ystyriaethau gweithredol, ariannol a chymunedol:

**1. Cymorth ar gyfer Rheoli'r Safle a Hygyrchedd**

Mae Pentre Awel yn ddatblygiad aml-ddefnydd, sy'n denu nifer fawr o ymwelwyr, gan gynnwys cleifion, staff, myfyrwyr a defnyddwyr hamdden.

Bydd cyflwyno parcio am ddim am y tair awr gyntaf yn fanteisiol ar gyfer ymweliadau tymor byr i'r datblygiad. Mae system Talu ac Arddangos ar gyfer parcio am gyfnod hwy yn sicrhau mynediad teg a chyson i leoedd parcio, gan atal defnydd hirdymor neu anawdurdodedig, a gwella trosiant.

**2. Annog Teithio Cynaliadwy**

Mae codi tâl am barcio yn cefnogi amcanion trafnidiaeth ehangach drwy annog y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus, llwybrau teithio llesol a rhannu ceir lle bo'n briodol ac mae'n cyd-fynd ag ymrwymiad Cyngor Sir Caerfyrddin i leihau tagfeydd ac allyriadau carbon.

**3. Cysondeb ar Draws Safleoedd a Reolir gan y Cyngor**

Mae cyflwyno system Talu ac Arddangos yn sicrhau bod Pentre Awel yn cyd-fynd â meysydd parcio eraill a weithredir gan y cyngor yn Llanelli a'r sir ehangach, ac yn sicrhau dull safonol o reoli parcio a gorfodi rheolau parcio.

**4. Gwella Gwaith Monitro a Gorfodi**

Mae cyflwyno'r Gorchymyn yn golygu bod modd monitro patrymau defnydd yn fwy effeithiol ac yn cefnogi'r gwaith o gymryd camau gorfodi yn erbyn camddefnydd, megis aros yn rhy hir neu barcio mewn ardaloedd cyfyngedig.

Mae hefyd yn gwella diogelwch a hygyrchedd i bob defnyddiwr, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion symudedd.